MYNEDIAD I GYNULLEIDFAOEDD CANLLAWIAU 2016 - 2020

ffilm CYMRU WALES

www.ffilmcymruwales.com

CYFLWYNIAD

Mae Ffilm Cymru Wales wedi ymrwymo i hyrwyddo diwylliant ffilm bywiog a nwyfus drwy gynyddu mynediad i, ac ymestyn yr amrywiaeth o ffilmiau sydd ar gael, i bob cynulleidfa ledled Cymru, gan gynnwys y ffilmiau hynny sy'n arbennig o berthnasol i Gymru.

Ffrwyth adolygiad strategol a gynhaliodd Ffilm Cymru yn 2015/2016 yw'r canllawiau sy'n dilyn ac maen nhw hefyd yn talu sylw i ddata a gasglwyd oddi wrth gleientiaid a ariannwyd, ymchwil ehangach yn y DU ac ymatebion i arolygon.

Mae'r ddogfen hon yn egluro ein nodau a'n blaenoriaethau ariannu ar gyfer 'Cronfa Mynediad i Gynulleidfaoedd" Ffilm Cymru Wales; ei diben yw helpu sefydliadau sy'n dymuno gwella amrywiaeth, argaeledd a chyrhaeddiad y ddarpariaeth annibynnol o ffilmiau i bobl Cymru.

Yn 2016/2017 bydd y Gronfa Mynediad i Gynulleidfaoedd ar agor i wyliau a sefydliadau eraill sy'n dymuno cynnig profiad o wylio ffilmiau ar y cyd yng Nghymru na fyddai, fel arall, yn derbyn arian ar gyfer mannau arddangos oddi wrth Ffilm Cymru Wales.

O fis Ebrill 2017, bydd y gronfa ar agor i bob man arddangos, gwyliau ac unrhyw sefydliad arall sy'n dymuno cynnig profiad o wylio ffilmiau ar y cyd yng Nghymru.

Ein hamcanion yw cynnig arian ar gyfer portffolio cytbwys sy'n cefnogi cytundebau ariannu yn y tymor hirach i gleientiaid sy'n bwriadu dangos ffilmiau annibynnol flwyddyn ar ôl blwyddyn sy'n cyd-fynd â'n hegwyddorion ariannu, yn ogystal ag ariannu i arbrofi syniadau ac i ymateb i gyfleoedd pan a phryd y bydd y rhain yn ymddangos, gan annog modelau newydd o fusnes a dargyfeirio ffrydiau incwm.

Yn benodol, rydym yn awyddus i gefnogi gwella'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd hynny o Gymru lle mae'n dal yn brin, o ran mynediad at sgriniau sy'n dangos cynnwys ffilm annibynnol ac i gyrraedd rhagor o aelodau'r cyhoedd sy'n cael eu tan gynrychioli mewn cynulleidfaoedd ffilmiau annibynnol mewn mannau cymdeithasol – gan gynnwys, er enghraifft, cyrraedd cymunedau De a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl ag anableddau, oedolion ifanc a phlant.

Mae'r gronfa Mynediad i Gynulleidfaoedd yn cynnwys arian loteri Cyngor Celfyddydau Cymru ac arian Cymorth Grant y Sefydliad Ffilm Prydain.

EGWYDDORION CRAIDD

Y tair egwyddor sy'n sail i'n strategaeth cynulleidfaoedd a'n penderfyniadau ariannu cysylltiol yw:

CYNHWYSEDD

Rydym ni eisiau i bobl ledled Cymru, waeth beth yw eu hoedran, hil, tueddiad rhywiol, anabledd, lleoliad a / neu statws economaidd a chymdeithasol allu gweld amrywiaeth eang o ffilm, mewn mannau cymunedol, y maen nhw'n gallu uniaethu â nhw a'u gwerthfawrogi. Rydym ni'n annog cynhwysedd ar draws pob Nodwedd Warchodedig.

GWERTH AM ARIAN

Rydyn ni eisiau i'n harian gael yr effaith fwyaf posibl. Mae ein gwerthusiad yn cynnwys mesur costau yn ôl y nifer sy'n bresennol (er enghraifft, data hyd yma sy'n dangos cyfartaledd costau yn ôl y nifer sydd wedi mynychu sinemâu o 55c, o gymharu a £3.23 ar gyfer gwyliau a £4.06 ar gyfer digwyddiadau arbennig). Rydym yn annog ymgeiswyr i gadw mewn cof gost y pen yn ôl y nifer fydd yn mynychu'r gweithgaredd y bwriedir ei gynnal. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y gallai dalgylchoedd, lleoliadau a rhai mathau o weithgareddau fod angen cefnogaeth ddyfnach a fydd, o angenrheidrwydd, yn costio rhagor – gan gynnwys peilota cynigion i gynulleidfaoedd newydd, datblygu partneriaethau newydd ac arbrofi gyda mannau newydd neu ffyrdd newydd o raglennu a marchnata, er enghraifft. Rydym eisiau annog y gweithgareddau hyn lle y gellir disgwyl ehanghu'r cynulleidfaoedd a gwella'r cysylltiad gyda chynulleidfaoedd- a byddwn yn disgwyl y bydd hyn yn arwain at gynnydd yng nghost y pen yn ôl y nifer yn y cynulleidfaoedd ar yr adegau hynny.

ARLOESEDD

Bu ein strategaeth flaenorol – a oedd yn canolbwyntio ar fannau arddangos a gwyliau - yn rhedeg am naw mlynedd. Yn y ystod y cyfnod hwnnw, esblygodd y sector arddangos gryn dipyn, datblygodd sinema digwyddiadau a thros dro, datblygodd hefyd y Rhwydwaith Cynulleidfaoedd Ffilm gyda chefnogaeth y Sefydliad Ffilm Prydain ac mae'r arloesedd digidol sy'n dal i ddatblygu'n cynnwys cysylltu digwyddiadau a gwella marchnata a dosbarthu. Mae'n bwysig bod agwedd Ffilm Cymru Wales yn addasu i amgylchiadau sy'n newid ac yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd sy'n codi tra'n dal i adeiladu ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda hyd yma, ac o gofio mai'r hyn sy'n cael ei gynnig i gynulleidfaoedd yw'r prif ysgogydd.

Drwy'r gronfa Mynediad i Gynulleidfaoedd rydym eisiau arbrofi gyda syniadau ac annog datblygiadau mentrus sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, yn denu partneriaethau newydd ac sy'n datblygu'r model busnes ar gyfer arddangos ffilmiau. Rydym ni'n annog arloesedd gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, ddatblygu ac annog, rhai o'r newydd a rhai sy'n datblygu, o:

Fodelau busnes
annog cydweithio, partneriaethau newydd, ffyrdd newydd o weithio, amrywio ariannu ac annog dulliau'n cael eu harwain gan ymchwil a data.

Lleoliadau
Roedd y cyfan o'n model ariannu blaenorol yn cael ei glymu wrth bortffolio sefydlog o wyliau a lleoliadau ac nid oedd yn talu digon o sylw i ddatblygiadau yn yr amgylchedd arddangos mewn sinemâu nac i fannau o bwys yng Nghymru lle nad yw cynulleidfaoedd yn cael cymaint o ddarpariaeth. Er ein bod yn cydnabod gwerth y sefydlogrwydd a ddaw o gytundebau ariannu am sawl blwyddyn, mae'n rhaid cydbwyso hyn gyda'r gallu i ymateb i ac annog cyfleoedd newydd. Er enghraifft, fe hoffem ni weld ffilmiau ar gael mewn amrywiaeth ehangach o fannau y mae cymunedau eisoes yn eu gwerthfawrogi, gan gynnwys cydnabyddiaeth o'r potensial sydd gan ffilm i adfywio a rhoi diben newydd i fannau sy'n cael eu tanddefnyddio neu heb ddefnydd o gwbl.

Prisiau
mae hyn yn codi'n rheolaidd mewn gwahanol astudiaethau ac yn rhannu'r ABC1 oddi wrth weddill y boblogaeth. Fe hoffem ni weld rhagor o arbrofi gyda phrisiau, lle mae'n bosibl, i gyrraedd poblogaeth ehangach.

YR ARIAN A FYDD AR GAEL

Bydd cyfanswm o £70,414 o arian loteri ar gael yn ystod 2016-17 drwy'r Gronfa Mynediad i Gynulleidfaoedd. Mae hyn ar ben y £98,531 sydd wedi'i gynnig i bortffolio o fannau yng Nghymru yn 2016-17, blwyddyn derfynol eu cytundebau tair blynedd.

Ym mhob achos, bydd yr arian a fydd yn cael ei gynnig yn cael ei gapio ar 75% o gyfanswm y gyllideb. Dylai'r gweddill gynnwys arian o gronfeydd partneriaethau ond gall hefyd gynnwys cefnogaeth an-ariannol.

Mae arian Mynediad i Gynulleidfaoedd yn cael ei roi ar ffurf grant na ellir ei adfer. Ond, dylid cofio y bydd y Cytundeb Ariannu yn darparu ar gyfer tynnu yn ôl neu leihau'r arian sy'n cael ei gynnig os bydd newidiadau o bwys mewn darpariaeth o gymharu â'r cais, oni bai y cytunwyd ar hynny'n ysgrifenedig. Gallai torri'r amodau mewn ffordd na ellir ei adfer olygu y byddai'n rhaid ad-dalu'r arian. Bydd unrhyw arian a fydd yn cael ei gynnig ar ddisgresiwn Ffilm Cymru Wales.

Rydym yn disgwyl y bydd cryn gystadlu am arian o'r gronfa hon ac yn annog ymgeiswyr i gael cymaint ag sydd bosibl o arian o bartneriaethau trydydd parti – gan amrywio'r partneriaid a'r ffynonellau o arian.

GWERTH EHANGACH MYNEDIAD I GYNULLEIDFAOEDD

Beth bynnag yw eu maint, gall y rhai sy'n derbyn arian Mynediad i Gynulleidfaoedd wneud cyfraniad gwerthfawr i'r amgylchedd economaidd, gymdeithasol a diwylliannol, yn lleol ac yn ehangach, gan gynnwys:

- Ehangu cyrhaeddiad ffilmiau i gynulleidfaoedd newydd – datblygu'r farchnad a'r cyrhaeddiad cymdeithasol a chynyddu'r dewis o ffilmiau sy'n cael eu cynnig i wella a chynnal cysylltiadau;
- Datblygu cyrhaeddiad a chynaliadwyedd arddangoswyr, cefnogi twf a'r gallu i addasu wrth annog arloesedd;
- Cryfhau gwaith y Rhwydwaith Cynulleidfaoedd Ffilmiau (FAN), y Rhwydwaith Addysg Ffilmiau (FEN) ac Into Film, sy'n cael eu hariannu gan y Sefydliad Ffilmiau Prydain drwy gefnogi sector arddangos ffilmiau fywiog sy'n gallu addasu er mwyn cydweithio a darparu enghreifftiau o ymarfer gorau y gellid ei ddefnyddio mewn mannau eraill;
- Cefnogi nodau ac amcanion adfywio a Chenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru drwy gefnogi sefydliadau diwylliannol a chynnig ffilmiau mewn ardaloedd lle mae prinder darpariaeth ac i gynulleidfaoedd sy'n cael eu tan gynrychioli lle gall ffilm fod yn fodd o gysylltu ag a chefnogi agenda gwella llythrennedd ddigidol, addysg a sgiliau.
- Cyfrannu at wella dealltwriaeth o sut y gellir cyfarfod anghenion a diddordebau'r cyhoedd yng Nghymru orau drwy gasglu a rhannu, yn systematig, ddata ac ymchwil marchnata ar gynulleidfaoedd y bydd pob ymgeiswyr llwyddiannus yn cytuno i fod â rhan ynddo.

CYMHWYSEDD

Bydd y gronfa Mynediad i Gynulleidfaoedd yn cynnig cefnogaeth ariannol i amrywiaeth eang o weithgaredd ynghylch ffilmiau, a allai gynnwys:

- Mannau Sinema Annibynnol (Allwn ni ddim ariannu mannau sy'n derbyn arian craidd ar hyn o bryd yn 2016/2017)
- Gwyliau ffilm
- Cymdeithasau ffilm
- Mannau Sawl Celfyddyd
- Sefydliadau Diwylliannol
- Digwyddiadau Sinemâu Dros Dro.
- Sinemâu Symudol Gwledig
- Sinemâu Cymunedol / Cymdogaethol
- Sefydliadau Diddordeb Cymunedol a / neu Elusennau
- Clybiau Ieuenctid, Canolfannau Dysgu Gydol Oes, Cartrefi gofal, rhaglenni Celfyddydau Cymunedol a grwpiau cymunedol eraill

Ni fydd Ffilm Cymru Wales yn cefnogi cadwyni mawr o sinemâu na darpariaethau hynod fasnachol yn y prif lif.

Y BROSES YMGEISIO

Gwahoddir pob sefydliad, gan gynnwys gwyliau a mannau nad ydyn nhw'n derbyn arian gan Ffilm Cymru Wales yn 2015-16, i gyflwyno **Mynegiant o Ddiddordeb (Rhan 1)** i gyfrannu at drafodaeth ynghylch nodau ac amcanion y sefydliad, sut y mae'n cyd-fynd ag egwyddorion sefydlu'r Gronfa Mynediad i Gynulleidfaoedd ac i'n galluogi ni i ddod i ddeall eich anghenion a'ch gwerthoedd yn well. Efallai eich bod yn teimlo, er enghraifft, y gallech gysylltu â darpar gynulleidfa darged a allai fod â diddordeb mewn ffilm ond nad yw'r profiad na'r cysylltiadau gennych i baratoi cynnig cadarn. Efallai y gallwn ni gynnig gwahanol fathau o help – o awgrymu cysylltiadau a phartneriaethau ehangach hyd at eich gwahodd i ymgeisio am arian (Rhan 2).

Bydd Gwyliau Ffilmiau a oedd yn derbyn arian Ffilm Cymru Wales yn 2015-16 yn cael cynnig arian o'r gronfa Mynediad i Gynulleidfaoedd yn 2016-17, yn amodol ar adolygu eu cais. Ni fydd gofyn iddyn nhw gyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb ond mynd yn syth at y broses ymgeisio **(Rhan 2)** gan gyflwyno ceisiadau erbyn 8 Medi a 30 Ionawr. Rydym yn deall efallai y bydd rhai ymgeiswyr angen penderfyniad yn gyflym. Os felly, cysylltwch â ni gynted â bo modd i egluro eich anghenion fel y gallwn ni ddarparu caniatâd arbennig. Byddwn yn asesu ac yn penderfynu ar symiau ariannu ar ôl adolygu ceisiadau yn erbyn egwyddorion craidd y gronfa Mynediad i Gynulleidfaoedd a hyfywdra'r cynnig.

Gall sefydliadau neu gonsortia gyflwyno ceisiadau (gyda phwynt gwerthu unigryw ac amcanion / uchelgeisiau sy'n cael eu rhannu).

Nid yw mannau sy'n derbyn arian gan Ffilm Cymru Wales yn 2016-17 yn gymwys i i gyflwyno cais i'r gronfa hon tan fis Ebrill 2017.

Dylai sefydliadau sy'n ymgeisio fod yn weithgar yng Nghymru a chyda chyllidebau sy'n canolbwyntio ar weithgareddau sydd o fudd i'r cyhoedd yng Nghymru.

Y BROSES ASESU

Dyddiad cau ar gyfer y rownd nesaf o geisiadau ydy 5ed o Ragfyr 2016.

Gofynnir i Wyliau Ffilmiau a oedd wedi derbyn arian Ffilm Cymru Wales yn 2015-16 i gyflwyno ffurflen gais ar gyfer yr 2il cam.

Gwahoddir pob sefydliad arall i gyflwyno eu Mynegiant o Ddiddordeb ar sail dreigl ac efallai y cewch wahoddiad yn ddiweddarach i gyflwyno cais am arian, eto ar sail dreigl, unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

Bydd pob cais am arian yn cael ei ystyried gan banel o aelodau o Fwrdd a Gweithredwyr Ffilm Cymru a fydd yn eu hasesu yn erbyn yr egwyddorion craidd a gyhoeddwyd, ac sy'n cael eu disgrifio yn y ddogfen strategaeth hon, a hyfywdra'r prosiect.

Ni fydd Ffilm Cymru yn gallu ariannu pob cais a gyflwynir.

Rydym yn anelu at adolygu pob cais cyflawn ac anfon penderfyniad ariannu o fewn [6 wythnos o'r terfyn amser, neu 4 wythnos ar gyfer ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno ar sail dreigl].

Bydd Ffilm Cymru Wales yn cyflwyno cynigion ariannu i ymgeiswyr llwyddiannus Mynediad i Gynulleidfaoedd a fydd yn amodol ar Gytundebau Ariannu sy'n adlewyrchu nodau ac amcanion y cais ac a fydd yn cynnwys manylion dyletswyddau, megis casglu data, credydau loteri a thelerau ad-dalu os torrir amodau y tu hwnt i'w hadfer.

Mae 2016-17 yn flwyddyn drosiannol i wyliau a oedd yn derbyn arian Ffilm Cymru Wales. Rydym yn rhagweld, o fis Ebrill 2017, y byddwn â chytundebu ariannu tair blynedd gyda phortffolio o ymgeiswyr a allai gynnig lleoliadau, gwyliau a darparwyr eraill sy'n gallu cyflwyno tystiolaeth o ddarpariaeth gyson o wylio ffilmiau ar y cyd i gynulleidfaoedd yng Nghymru. Yn ogystal â hynny, rydym yn bwriadu cyflwyno sawl cytundeb ariannu am dymhorau byr er mwyn gallu profi darparwyr, modelau busnes a chynulleidfaoedd newydd.

Ar ôl hynny, bydd cytundebau ariannu'n amodol ar asesu perfformiad yn erbyn targedau a gytunwyd ac o ystyried y cyd-destun busnes ehangach y mae'r fenter Mynediad i Gynulleidfaoedd yn gweithio ynddi, ac a fydd yn cael eu trafod mewn adroddiad diwedd blwyddyn ac yn bersonol.

Os hoffech gyflwyno unrhyw sylwadau neu gyflwyno cwyn, gellir canfod ein gweithdrefn yma:
www.ffilmcymruwales.com/index.php/en/company-details-and-contact/policies

CASGLU DATA A'R BROSES WERTHUSO

Fel rhan o'ch Cytundeb Ariannu gyda Ffilm Cymru Wales, bydd gofyn i chi gyflwyno adroddiad terfynol a ffurflen fonitro o fewn tri mis o'ch dyddiad gorffen. Ni fydd y taliad terfynol yn cael ei ryddhau nes bod Ffilm Cymru wedi derbyn yr wybodaeth y gofynnir amdano a phan fydd yn hyderus fod y prosiect wedi cael ei gynnal a bod yr amodau ariannu wedi'u bodloni, gan gynnwys cyflwyno data. Fel rhan o'r adroddiad terfynol bydd gofyn i chi ddarparu:

- Adroddiad gwerthuso byr;
- Cyllideb incwm a gwariant fanwl, sy'n dangos lle y gwyrwyd oddi wrth y gyllideb a gytunwyd;
- Adroddiad swyddfa docynnau / cynulleidfa- gyda chynulleidfaoedd wedi'u didoli yn ôl sgriniadau / digwyddiadau;
- Detholiad o ddelweddau digidol o ansawdd o'ch prosiect ar ddisg. Bydd yn rhaid i'r rhain fod ar gael i'w defnyddio ar ein gwefan, taflenni newyddion, adroddiadau cwmniau a llenyddiaeth gorfforaethol yn ôl y gofyn;
- Adroddiadau o unrhyw sylw yn y wasg, gyda phob datganiad i'r wasg yn nodi , ar ffurf wedi'i gymeradwyo, gefnogaeth Ffilm Cymru Wales.
- Ffurflen fonitro buddiolwyr- a ddarperir gan Ffilm Cymru Wales.

Yn ogystal â hyn, bydd disgwyl i chi gynnal a chyflwyno fel rhan o'r cais i Ffilm Cymru Wales:

- Gynllun busnes a chofrestr risg sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.
- Tystiolaeth o'r ffyrdd y mae data'n cael ei gasglu a sut y gellir eu datblygu i olrhain ymddygiad cynulleidfaoedd.
- Polisi'r Iaith Gymraeg yn unol â pholisi Cyngor y Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Polisi sy'n cael ei ddatgan yn glir ar gyfer addysg a chysylltu cymunedol, sy'n ceisio gweithio gyda phobl o gefndiroedd ynysig a difreintiedig, yn ogystal â gyda'r sector addysg ffurfiol ac anffurfiol.

POLISI AMDDIFFYN PLANT AC OEDOLION BREGUS

Os yw unrhyw ran o'ch prosiect yn cael ei anelu at blant a / neu bobl ifanc mae'n rhaid i'r cais am arian gynnwys:

- Copïau i Ffilm Cymru Wales o bolisi priodol amddiffyn plant,
- Dangos fod gennych bolisi recriwtio a dewis trylwyr ar gyfer staff sy'n cael eu talu, rhai llawrydd a gwirfoddolwyr a fydd yn gweithio â / neu yn arolygu plant ac oedolion bregus. Dylai hyn gynnwys gwiriadau'r Biwro Cofnodion Troseddol os yn berthnasol,
- Nifer y staff a fydd yn gweithio ar y prosiect gan ddangos nifer y plant fesul goruchwylydd.

Dylid cynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel mater o ymarfer da pan fydd dyletswyddau arferol staff neu wirfoddolwyr yn cynnwys gofalu, hyfforddi, goruchwylio neu ofalu ar eu pen eu hunain am blant a / neu gynnwys cysylltiad heb ei arolygu gyda phlant.

Mae Cyngor Cymru ar Weithredu Gwirfoddol yn Gorff Ymbarél Cofrestredig ar gyfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gall fod o gymorth i sefydliadau gyda manylion recriwtio gwirfoddolwyr a staff sy'n cael eu talu. Mae rhagor o arweiniad, a gwybodaeth ar wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar wefan Uned Cofnodion Troseddol y Cyngor: http://www.wcva-cru.org.uk.

MANYLION CYSWLLT

Os hoffech chi holi ynghylch unrhyw beth neu os hoffech chi drafod unrhyw agwedd o'ch prosiect cyn cyflwyno cais, cysylltwch â:

Nicola Munday
Cydlynydd Cynulleidfa, Addysg ac Adfywio
02920 766931
nicola@ffilmcymruwales.com.

Cofiwch, gall arddangoswyr ffilmiau sy'n canolbwyntio digon ar lythrennedd ffilm ymgeisio hefyd, ar wahân, i'r Gronfa Addysg. Cewch fanylion ar ein our Education Strategy ac yn ein Canllawiau Ariannu.

ffilm
CYMRU WALES

S4C MEDIA CENTRE
PARC TŶ GLAS
LLANISHEN
CARDIFF
CF14 5DU

+44(0)2920 766931
enquiries@ffilmcymruwales.com
www.ffilmcymruwales.com

BFI Film Forever

Supported by
The National Lottery®
through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales